

❖ Awn i Fethlehem

Dyna ddyhead pob pererin a fu yng ngwlad Iesu: cael mynd yn ôl yno ar y Nadolig a'r Pasg a'r Pentecost. Gwir y dyhead, fel y dywedodd Wil Ifan:

Tua Bethlem dref
awn yn fintai gref
ac addolwn Ef.

Bu i Fethlehem wynebu cyfnodau o enbydrwydd, ac ni fu'n hawdd bob amser meddwl am fynd yno. Cofiwn yr hyn a fynegodd Llion Ellis Jones yn ei englyn:

Er bod seren y geni – yn aros
Mor daer ei goleuni,
Yn araf iawn y trof i
Am lôn Bethlehem eleni.

Cofiaf yn dda hefyd englyn Ieuan Wyn:

Rachel sy'n wylo'i helynt – a chysur
Ni chais am nad ydynt:
Heno yng nghri'r dwyreinwynt
Mae gwae fil yn Rama gynt.

Hoffwn ddechrau ar y daith i Fethlehem yng ngharol hyfryd W. R. P. George. Yr hyn sy'n mynd â'i fryd ef yw wyneb Iesu Grist, ac yn ddiwinyddol mae hynny'n neges arbennig, oherwydd yn wyneb Iesu Grist y gwelwn ni wyneb Duw. Mae'r byd yn falch o'r seren a thrysorau'r doethion, ond mae'r bardd am i ni gofio:

Mae'r gogoniant ar ei wŷneb,
wŷneb Iesu, wŷneb Iesu, Brenin nef.

Un o'n ffefrynnau pennaf ni'r Cymry yw carol W. Nantlais Williams ar dôn Haydn Morris, 'Hwiangerdd Mair'. Darlun o fam a'r Baban Dwyfol a gawn ni, ac mae'r darlun yn un cyfarwydd ym mhob cenhedlaeth. Mair yn anwylo ei baban tlws; ac mae'r garol yn wych iawn am fod y bardd wedi llwyddo mewn dwy linell i'w harbed rhag mynd yn garol seciwlar, ac y mae llu o'r rheini gennym erbyn hyn. Yn y pennill cyntaf cawn y llinell, 'Gwasgai Waredwr y Byd at ei bron'. Dyna mewn byr eiriau yw Iesu. Gwaredwr Byd yw ein cyfaill cu. Yn yr ail bennill cawn y llinell, 'Cwsg cyn daw Herod â'i gledd ar ei glun'. Mae Herod gyda ni o hyd, a dywed Dic Jones galon y gwir:

Os wyt ti'n Affganistan – ac ym mwg
Y meirw ym Manhatan
A rhu'r gynnau ar Ganaan
Ai ti yw Crist y Koran?

Carol hyfryd arall a anweswn yw un o garolau W. Rhys Nicholas wedi ei seilio ar bererindod Mair a Joseff o Nasareth i Fethlehem:

A welaist ti'r ddau a ddaeth gyda'r hwyr
o Nasareth draw, wedi blino'n llwyr?
Bu raid imi ddweud bod y llety'n llawn
a chlywais hwy'n sibrwd, "Pa beth a wnawn?"

Nid oedd dim dewis gan ŵr y llety. Roedd yr awel yn ffiniog ac nid oedd modd cysgodi rhag y dymestl ond yn llety'r anifail, lle digon cysgodol o'i gymharu â'r teuluoedd ynghanol eira mynyddoedd Cashmir.

Yn ystod oriau'r nos daeth y newydd da o lawenydd mawr i strydoedd Effrata. Gwyrth y Geni, a gwir y dywedodd John Glyn Jones:

Fe wyddom am holl ryfeddod yr ŵyl;
A rhywle rhwng smaldod
Mae un bach, y mwya'n bod.

I gloi'r myfyrdod cyflwynaf englyn gwych arall o eiddo J. Eirian Davies, A Hwy a Gawsant y Dyn Bach:

Ni wyddom am ddim rhyfeddach – Crëwr
Yn crio mewn cadach,
Yn faban heb ei wannach,
Duw yn y Byd fel dyn bach.

D. Ben Rees